

---

## **Addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn addysg bellach**

Mehefin 2017



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALLau)
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Cefndir</b>	<b>1</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	<b>3</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>6</b>
<b>Parhad a dilyniant mewn profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog</b>	<b>7</b>
<b>Safonau</b>	<b>10</b>
<b>Addysgu ac asesu</b>	<b>11</b>
<b>Arweinyddiaeth</b>	<b>12</b>
<b>Staffio a hyfforddiant</b>	<b>13</b>
<b>Cymorth ac arweiniad</b>	<b>14</b>
<b>Atodiad 1: Sail dystiolaeth</b>	<b>16</b>
<b>Atodiad 2: Tystiolaeth data</b>	<b>17</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>20</b>

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2014-2015. Diben yr adroddiad yw:

- archwilio pa mor effeithiol y mae colegau addysg bellach yn sicrhau parhad a dilyniant mewn profiadau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog
- arfarnu effeithiolrwydd modelau cwricwlaidd a dulliau addysgu sydd ar waith mewn colegau addysg bellach
- nodi a rhannu arfer dda mewn addysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

## Cefndir

O gyfrifiad 2011, mae 19% o'r boblogaeth yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Mae 20% o ddisgyblion oed ysgol sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf, ac mae 20% o brofiadau dysgu'r chweched dosbarth yn cael eu hastudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Dim ond 10% o ddysgwyr mewn colegau addysg bellach sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, ac mae rhyw 7% o brofiadau dysgu yn cael eu hastudio yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Yn Ebrill 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei '*Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*', sy'n amlinellu'r weledigaeth o dwf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob sector ac ystod oedran. Mae'r strategaeth yn cynnwys chwe nod, ac mae dau ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i golegau addysg bellach. Diben nod strategol 2 yw:

“...gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus” (tud.14).

Diben nod strategol 3 yw:

“...sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf” (tud. 15).

Er mwyn monitro'r cynnydd a wneir wrth weithredu'r Strategaeth, fe wnaeth Llywodraeth Cymru bennu targedau penodol pum mlynedd a thargedau dangosol deng mlynedd yn seiliedig ar ddeilliannau sy'n ganolog i lwyddiant y Strategaeth. Deilliant 4 o'r strategaeth sy'n fwyaf perthnasol i'r sector addysg bellach, sy'n pennu targedau fel bod:

“mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg” (tud.25).

Y targed bras, erbyn 2020, yw y bydd o leiaf 10% o ddysgwyr yn y sector addysg bellach yn astudio naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Gellir gweld mwy o fanylion yn Atodiad 2, gyda Thabl 1 yn dangos targedau Cymru Gyfan ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith. Mae Tabl 3, sydd i'w gael yn Atodiad 2 hefyd, yn dangos dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a disgyblion o oed ysgol statudol sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Parhad a dilyniant mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

- 1 O fan cychwyn isel, bu cynnydd bach yn nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, er bod targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015 wedi'i gyflawni, nid yw llawer o ddysgwyr yn parhau â'u dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fyddant yn trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg.
- 2 At ei gilydd, nid oes digon o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn parhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach. Mae cryn amrywio rhwng meysydd dysgu o ran cyfran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys meysydd dysgu lle ceir galw cynyddol gan gyflogwyr am fedrau dwyieithog, fel lletygarwch ac arlwyo.
- 3 Mae ychydig o golegau wedi llwyddo i gyflwyno cyrsiau'n ddwyieithog. Nid yn unig y mae'r colegau hyn yn cynyddu'r cyfleoedd i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu medrau dwyieithog, maent hefyd yn sicrhau bod dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau yn Saesneg yn bennaf yn gwneud cynnydd â'u medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o golegau, lle mae nifer y dysgwyr sy'n dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn isel, wedi rhoi digon o ystyriaeth i ddarparu cyrsiau'n ddwyieithog er mwyn creu maint dosbarthiadau hyfyw.
- 4 Yn yr ychydig o achosion lle mae colegau'n cyflwyno unedau cyfrwng Cymraeg neu unedau iaith Gymraeg mewn cyrsiau cyfrwng Saesneg, rhoddir cyfleoedd da i ddysgwyr a ddysgodd Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol ddatblygu'u medrau Cymraeg ymhellach a helpu bodloni galw cynyddol am y medrau hyn gan gyflogwyr. Yn gyffredinol, nid yw colegau'n gwneud digon yn hyn o beth, nac o ran adnewyddu a mireinio medrau Cymraeg dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg.
- 5 Nid yw llawer o golegau yn cofnodi gwybodaeth yn gyson ac yn gywir ynglŷn â pha weithgareddau dysgu a gyflawnir yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. Yn gyffredinol, nid oes dealltwriaeth glir gan athrawon a rheolwyr data colegau ynglŷn â sut dylai eu dulliau addysgu dwyieithog gael eu categorio. Mae colegau yn adrodd am ddiffyg eglurder yn yr arweiniad a gânt gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut i gategoreiddio gweithgareddau addysgu a dysgu dwyieithog gwahanol. Mae hyn yn codi amheuan ynghylch dibynadwyedd data cenedlaethol.

### Safonau medrau Cymraeg dysgwyr

- 6 Mewn gwersi, mae medrau Cymraeg neu ddwyieithog llafar da gan lawer o ddysgwyr sy'n dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Maent yn siarad yn hyderus ac yn gywir, ac yn dangos dealltwriaeth dda o eirfa a therminoleg pwnc. Fodd bynnag, dywed rhyw draean o ddysgwyr mai dim ond yn eithaf hyderus y maent ar lafar ar y gorau, er iddynt ddilyn cyrsiau yn Gymraeg neu fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dewis cyflwyno'u gwaith cwrs yn Gymraeg yn ysgrifennu

gyda chywirdeb cynyddol, gan ddefnyddio ystod o eirfa a therminoleg pwnc yn gywir. Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn dewis peidio â chyflwyno aseiniadau yn Gymraeg. Dim ond rhyw draean o ddysgwyr sy'n teimlo bod eu Cymraeg wedi gwella ers i'w cyrsiau coleg ddechrau.

- 7 Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n dilyn unedau cyfrwng Cymraeg mewn cyrsiau cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd da, o ystyried eu cefndir ieithyddol. Defnyddiant eirfa Gymraeg ac ymadroddion penodol i bwnc gyda chywirdeb cynyddol.

### **Addysgu ac asesu**

- 8 Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn dda mewn gwersi a gyflwynir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae safon yr addysgu mewn unedau cyfrwng Cymraeg mewn cyrsiau cyfrwng Saesneg yn dda ar y cyfan hefyd. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn llwyddo i wneud defnydd cyson o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu ac addysgu.
- 9 Nid yw'r mwyafrif o ddysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cwblhau'u hasesiadau terfynol yn Gymraeg. Fe allai hyn gael effaith niweidiol ar statws darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### **Arweinyddiaeth**

- 10 Mewn lleiafrif o golegau, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth gadarn ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Yn yr achosion hyn, mae cynlluniau strategol yn cynnwys targedau heriol a strategaethau gwella manwl i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth hon.
- 11 Yn y mwyafrif o golegau, fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi datblygu'u cynlluniau Cymraeg i'r un graddau. Yn y colegau lle ceir cyfrannau isel o ddysgwyr sy'n dilyn eu pynciau neu'u meysydd galwedigaethol yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, nid yw arweinwyr yn ystyried bod cynyddu'r gyfran hon yn flaenoriaeth i'r coleg cyfan. Yn aml, nid yw ysgolion yn rhannu gwybodaeth am fedrau ieithyddol disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r coleg, ac mae hyn yn rhwystr rhag sicrhau parhad a dilyniant o ran dysgu yn Gymraeg.
- 12 Er gwaethaf nifer o fentrau llwyddiannus, nid yw colegau wedi gwneud digon i sicrhau bod dysgwyr y cydnabod manteision parhau i gael eu haddysgu a'u hasesu yn Gymraeg wedi iddynt drosglwyddo i'r coleg o'r ysgol uwchradd.

### **Staffio a hyfforddiant**

- 13 Mae lleiafrif o golegau yn cynnal arolygon o fedrau ieithyddol staff yn rheolaidd ac yn gweithredu polisiau recriwtio cadarn ar sail y wybodaeth hon i sicrhau bod digon o staff sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol rhag ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y mwyafrif o golegau.
- 14 Mae ychydig o golegau yn cynnig ystod eang o hyfforddiant mewn swydd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Fodd bynnag, lle mae nifer y dysgwyr sy'n dymuno dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg yn isel, nid yw colegau'n gwneud digon i ddatblygu medrau addysgu dwyieithog staff.

## Cymorth ac arweiniad

- 15 Mae hyrwyddwyr dwyieithrwydd, y cynllun sabothol<sup>1</sup>, a Sgiliaith<sup>2</sup> wedi sicrhau cymorth da i athrawon a dysgwyr. Yn sgil gwaith yr hyrwyddwyr dwyieithrwydd, mae'r mwyafrif o golegau addysg bellach yn paratoi rhaglenni cymdeithasol erbyn hyn sy'n darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae effaith hyrwyddwyr dwyieithrwydd yn llai cadarnhaol lle nad ydynt yn cyfrannu at brosesau cynllunio strategol ac at adolygu cynnydd yn erbyn targedau.
- 16 Mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg ac adnoddau cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16 o hyd. Mae prinder gwerslyfrau Cymraeg a gwirwyr allanol Cymraeg, ynghyd â threfniadau cyrff dyfarnu, yn parhau i gyfyngu ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

---

<sup>1</sup>Cynllun hyfforddi i ymarferwyr yw'r Cynllun Sabothol er mwyn cynyddu'r cyflenwad o ymarferwyr sy'n gallu addysgu a hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod o bynciau cyn-16 ac ôl-16. Mae'r Cynllun yn cynnig cyfnodau o astudio dwys, i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth, er mwyn datblygu medrau Cymraeg a magu hyder mewn methodolegau addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

<sup>2</sup>Sefydlwyd Canolfan Sgiliaith yng Ngholeg Meirion-Dwyfor yn 2001. Nod y ganolfan yw hyrwyddo addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ledled Cymru. Mae Sgiliaith yn cefnogi colegau a darparwyr eraill ar hyd a lled Cymru i ymateb i'r galw cynyddol am fedrau Cymraeg.



## Argymhellion

### Dylai colegau addysg bellach:

- A1 Weithio'n fwy effeithiol gydag ysgolion uwchradd i nodi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg cyn iddynt drosglwyddo i'r coleg a sicrhau bod yr holl wybodaeth am gymorth sydd ei hangen arnynt gan ddysgwyr er mwyn eu galluogi i ddewis i barhau â'u dysgu yn Gymraeg
- A2 Cryfhau cynlluniau strategol Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn enwedig yn y meysydd galwedigaethol y mae galw cynyddol am fedrau dwyieithog ynddynt gan gyflogwyr
- A3 Sicrhau bod digon o staff ar gael ym mhob coleg i ddarparu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a chefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg
- A4 Gwella hyfforddiant staff ar y fethodoleg addysgu'n ddwyieithog, a sicrhau bod digon o adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog
- A5 Sicrhau bod gwybodaeth am allu iaith dysgwyr, cymwysterau blaenorol yn Gymraeg a gweithgareddau dysgu wedi'u cofnodi'n gywir yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A6 Helpu colegau i wella ansawdd cynlluniau strategol iaith Gymraeg, gan gynnwys defnyddio data i osod targedau heriol er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog
- A7 Cynnal adolygiadau rheolaidd o'r cynnydd a wneir gan golegau yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau strategol
- A8 Gwella meysydd casglu data, a'u canllawiau cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod colegau'n cofnodi gwybodaeth gywir am alluoedd ieithyddol dysgwyr ac iaith dysgu ac asesu yn ôl gweithgaredd
- A9 Datblygu strategaeth genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o fanteision dewis parhau i ddysgu yn Gymraeg pan fyddant yn trosglwyddo o'r ysgol i'r coleg
- A10 Sicrhau bod digon o adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

## Parhad a dilyniant mewn profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

### Gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

- 17 Mae colegau addysg bellach yn cofnodi ystod o wybodaeth am ddefnydd dysgwyr o'r Gymraeg a'r ddarpariaeth addysgu a dysgu dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg. Cofnodir y wybodaeth hon yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (Llywodraeth Cymru 2016b), ac mae'r wybodaeth yn cael ei chyfleu i Lywodraeth Cymru at ddibenion ariannu a monitro. Mae colegau yn cofnodi gwybodaeth yn y meysydd canlynol o Gofod Dysgu Gydol Oes Cymru:
- LP23 Dangosydd siaradwr Cymraeg. Mae dysgwyr yn hunanadrodd p'un a ydynt yn: siaradwr Cymraeg rhugl; siaradwr Cymraeg nad yw'n rhugl; neu ddim yn siaradwr Cymraeg.
- LP67 Lefel y cymhwyster Cymraeg uchaf a gyflawnwyd cyn y rhaglen ddysgu. Yn gyffredinol, mae colegau'n casglu gwybodaeth a ddarperir gan y dysgwr ynglŷn â'i gyraeddiadau blaenorol adeg cofrestru.
- LA26 Math o ddysgu cyfrwng Cymraeg. Mae colegau'n cofnodi'r graddau y cynhelir pob gweithgaredd dysgu ar gyfer pob dysgwr yn Saesneg, yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. Mae'r categorïau sydd wedi cael eu defnyddio er 2014-2015 fel a ganlyn:
- E1 Dysgu ac asesu yn Saesneg yn unig.
- B3 Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, y defnydd o'r Gymraeg wedi'i chyfyngu i gyfathrebu llafar neu i ran fach o'r gweithgaredd dysgu. Asesu yn Saesneg yn unig. Gellir defnyddio'r cod hwn i gofnodi sefyllfaoedd lle defnyddir rhywfaint o Gymraeg yn ystod y dysgu. Nid yw defnydd lleiaf posibl o Gymraeg achlysurol yn ddigonol i'w gofnodi. Mae angen bod rhyngweithio yn Gymraeg rhwng yr asesydd/darlithydd/athro a'r dysgwr iddo fod yn ddefnydd ystyrllon o'r iaith.
- B2 Cryn dipyn o ddysgu cyfrwng Cymraeg, er enghraifft Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o rannau o'r gweithgaredd dysgu, ond nid y cyfan. Asesu yn Saesneg yn bennaf, ond gall rhywfaint fod yn Gymraeg hefyd.
- B1 Dysgu'n cael ei gwblhau mewn cyd-destun dwyieithog ac o leiaf 50% o'r asesiadau sydd ar gael yn y gweithgaredd dysgu yn cael eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir cyflawni'r deilliant gan ddefnyddio unrhyw fethodoleg addysgu briodol.
- C1 Dysgu'n cael ei gwblhau mewn cyd-destun Cymraeg a'r holl asesiadau sydd ar gael yn y gweithgaredd dysgu yn cael eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Oni nodir fel arall, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at addysgu a dysgu dwyieithog fel unrhyw ddarpariaeth yng nghategoriâu B1, B2 neu B3.

- 18 Mae rhai amheuon ynglŷn â chysondeb y modd y mae colegau'n cofnodi gwybodaeth ar gyfer y meysydd hyn a dibynadwyedd y wybodaeth a gynhychant. Er enghraifft,

efallai nad yw dysgwyr yn hunanadrodd lefel eu rhuglder yn y Gymraeg yn gywir (LP23) pan fyddant yn llenwi ffurflen gofrestru, neu efallai nad ydynt yn gwybod beth yw'r diffiniadau rhuglder sy'n gysylltiedig â'r maes hwn. Yn 2014-2015, ni wnaeth yr holl golegau ddychwelyd gwybodaeth gyflawn ddibynadwy ynglŷn â'r maes hwn, gan olygu nad yw'r set ddata yn gywir. Dylai cyflwyno maes yn ddiweddar i gofnodi'r lefel cymhwyster Cymraeg uchaf a gyflawnwyd cyn y rhaglen ddysgu (LP67) helpu i leihau'r amrywioldeb yn ymatebion y dysgwyr a rhoi safbwynt cliriach er mwyn mesur manau cychwyn dysgwyr mewn perthynas â gallu yn y Gymraeg.

- 19 Nid yw colegau yn cymhwyso'r un prosesau yn gyson wrth gategoreiddio gweithgareddau dysgu ar gyfer y maes sy'n cofnodi'r math o ddysgu cyfrwng Cymraeg (LA26). Yn gyffredinol, nid oes dealltwriaeth glir gan athrawon a rheolwyr data colegau ynglŷn â sut dylid categorio'u dulliau addysgu dwyieithog. Er enghraifft, mewn rhai colegau, cofnodir hyn gan athrawon ar gyfer pob dysgwr a phob gweithgaredd dysgu. Mewn colegau eraill, caiff ei gofnodi ar sail dosbarth wrth ddsbarth.
- 20 Mae colegau'n adrodd am ddiffyg eglurder yn yr arweiniad a gânt gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut i gategoreiddio gweithgareddau addysgu a dysgu dwyieithog gwahanol.
- 21 Serch hynny, mae modd nodi tueddiadau bras o'r data cenedlaethol a monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth genedlaethol. Bu cynnydd o ychydig dros ddau bwynt canran yn nifer y gweithgareddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach rhwng 2009-2010 a 2013-2014. Gellir priodoli'r cynnydd hwn yn rhannol i gyflwyno'r unedau 'iaith yn y gwaith' / 'language at work' mewn cyrsiau cyfrwng Saesneg, yn hytrach na chynnydd mewn cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Fodd bynnag, yn 2014-2015, bu gostyngiad o 8.5% i 7.2% yng nghyfanswm nifer y gweithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn colegau addysg bellach. Roedd y gostyngiad hwn yn ganlyniad diffiniadau diwygiedig o ddysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer y sector ôl-16. Mae'r ffigurau dros y tair blynedd diwethaf yn parhau'n uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 7% ar gyfer 2015. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn parhau'n is o lawer nag mewn ysgolion. Mae Tabl 2 yn Atodiad 2 yn dangos y patrwm manwl yn nifer y gweithgareddau dysgu Cymraeg a dwyieithog dros y blynyddoedd.
- 22 Ar y cyfan, dim ond 10% o ddysgwyr mewn colegau sy'n dynodi eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, o gymharu â 27% o'r boblogaeth 16 i 19 oed yng Nghyfrifiad 2011, a'r 20% o'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion a gynhelir yn 2016. Mae Tabl 4 yn Atodiad 2 yn dangos nifer y gweithgareddau dysgu yn ôl y cyfrwng dysgu.
- 23 Yn yr holl feysydd dysgu, ac eithrio Medrau Byw'n Annibynnol, mae llai o ddysgwyr yn astudio'n sylweddol yn ddwyieithog (B1) neu trwy gyfrwng y Gymraeg (C1) na'r nifer sy'n adrodd eu bod yn rhugl yn Gymraeg. Gan edrych ar yr holl gategorïau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg (B1, B2, B3, C1), dim ond mewn pump o'r 19 o feysydd dysgu y mae cyfran y dysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog yn cyfateb i gyfran y dysgwyr sy'n adrodd eu bod yn rhugl yn Gymraeg.

- 24 Ar draws y meysydd dysgu, mae cryn amrywio yn y niferoedd sy'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae 19% yn cyflawni gweithgareddau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn amaethyddiaeth, garddwriaeth a gofal anifeiliaid, ac 11% mewn peirianeg a thechnolegau gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, a gweinyddu busnes a'r gyfraith, dim ond 7% a 6% o weithgareddau dysgu, yn y drefn honno, sy'n cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r ffigurau hyn, yn arbennig, yn isel o ystyried y galw am fedrau dwyieithog gan gyflogwyr yn y meysydd hyn.

### **Modelau darpariaeth**

- 25 Bu symudiad at batrwm o ddarparu cyrsiau'n ddwyieithog yn y colegau hynny a leolir yng ngorllewin a gogledd-orllewin Cymru. Mae hyn yn cefnogi cyfleoedd i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ddilyn eu cyrsiau gydag elfennau sylweddol yn defnyddio'r Gymraeg, ac i feithrin eu medrau dwyieithog er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr. Yn ogystal, mae'n fodd o sicrhau bod dysgwyr sy'n dewis dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf mewn cyswllt rheolaidd â'r Gymraeg, a'u bod yn cael cyfle i adeiladu'n llwyddiannus ar eu cyflawniadau blaenorol yn y Gymraeg tra'u bod yn yr ysgol.
- 26 Yn y mwyafrif o golegau, fodd bynnag, mae diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i fyfyrwyr a fynychodd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yn yr achosion hyn, er bod dysgwyr yn cael cyfle i gyfranogi mewn gweithgareddau cymdeithasol defnyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae diffyg darpariaeth benodol i gynnal a gwella eu medrau Cymraeg fel rhan o'u cyrsiau, fel dosbarthiadau diweddarau iaith. Dywed y mwyafrif o ddysgwyr eu bod yn awyddus i ddilyn cyrsiau diweddarau iaith er mwyn gwella eu medrau Cymraeg, a'u bod yn poeni y byddant yn colli'u medrau ieithyddol.
- 27 Mewn ychydig o achosion, mae colegau'n darparu unedau cyfrwng Cymraeg ar gyrsiau cyfrwng Saesneg yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd da i ddysgwyr a ddilynodd rhaglenni astudio mewn Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae diffyg cyfleoedd yn y cwricwlwm i ddysgwyr adeiladu ar eu cyflawniadau blaenorol mewn Cymraeg fel ail iaith.

### **Dewisiadau dysgwyr**

- 28 Mae gormod o ddysgwyr sydd wedi cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn yr ysgol ac yn dewis peidio â pharhau i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn y coleg, hyd yn oed lle cânt eu cynnig.
- 29 Mae'r arolwg Llais y Dysgwr Cymru<sup>3</sup> yn 2014-2015 yn dangos bod 10% o ddysgwyr mewn addysg bellach yn awyddus i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac mai dim ond 1% sy'n dymuno dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae hyn yn debyg i'r darlun mewn blynyddoedd blaenorol.

---

<sup>3</sup> Cynhelir yr arolwg yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Caiff darparwyr adroddiadau manwl ar ganlyniadau'r arolygon a disgwylir iddynt gynhyrchu cynlluniau gweithredu i ymateb iddynt.

## Safonau

### Safonau medrau Cymraeg mewn sesiynau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog

- 30 Mae medrau Cymraeg llafar da gan y rhan fwyaf o ddysgwyr, ac ar brydiau, maent yn defnyddio cystrawen soffistigedig. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrannu'n hyderus trwy gydol y sesiynau ac yn mynegi barn, gan gynnig rhesymau i gefnogi'r farn honno'n gryno weithiau. Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gynnydd da yn eu medrau yn y ddwy iaith yn ystod gwersi ar gyrsiau galwedigaethol dwyieithog.
- 31 Mae dysgwyr yn hyderus wrth ateb cwestiynau a gofynnant i athrawon am fwy o wybodaeth i atgyfnerthu eu dysgu, fel bo'r angen. Mae medrau cyflwyno'r rhan fwyaf o ddysgwyr mewn sesiynau ymarferol yn datblygu'n briodol, er enghraifft mewn sesiynau hyfforddi chwaraeon neu gyflwyno'u prosiectau ymchwil mewn amaethyddiaeth.
- 32 Mae safonau ysgrifennu yn Gymraeg yn amrywio o un cwrs i'r nesaf. Mae'r mwyafrif o ddysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cwblhau'u haseiniadau ysgrifenedig yn Saesneg. Mae rhan fwyaf y dysgwyr sy'n dewis cyflwyno'u cwrs gwaith yn Gymraeg yn ysgrifennu gyda chywirdeb cynyddol, gan ddefnyddio ystod o eirfa a therminoleg pwnc yn gywir. Fodd bynnag, mae tuedd ymhlith ychydig o ddysgwyr i dreiglo geiriau'n anghywir neu wneud mân gamgymeriadau gramadegol.
- 33 Mae medrau trawsieithu'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu'n dda wrth iddynt ymgymryd ag ymchwil annibynnol ar gyfer prosiectau unigol. Defnyddio ieithoedd gwahanol gyda'i gilydd yw trawsieithu. Gall dysgwyr ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth yn y ddwy iaith a chyflwyno crynodeb, prif bwyntiau neu farn amdanynt yn Gymraeg neu Saesneg, fel bo'r gofyn. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu cyflwyno a thrafod eu hymchwil yn hyderus.
- 34 Dywed llawer o ddysgwyr eu bod yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae rhyw draean o ddysgwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n weddol hyderus ar y gorau wrth siarad, er eu bod i gyd naill ai'n dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dim ond traean o ddysgwyr sy'n teimlo bod eu Cymraeg wedi gwella ers iddynt ddechrau eu cwrs coleg.

### Safonau mewn medrau Cymraeg mewn unedau iaith Gymraeg ar gyrsiau cyfrwng Saesneg

- 35 Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfrannu'n frwdfrydig at weithgareddau dysgu, gan ddefnyddio geirfa Gymraeg ac ymadroddion penodol i bwnc gyda mwy a mwy o gywirdeb dros amser. Gwna'r rhan fwyaf ddefnydd da o eiriaduron, llyfrau terminoleg a rhaglenni gwirio cyfrifiadur i ehangu eu geirfa a chywiro eu gwaith. Fodd bynnag, mae ystod y patrymau brawddegau a ddefnyddiant yn gyfyngedig, ac ymatebion cymharol fyr maent yn eu rhoi yn aml.

## **Addysgu ac asesu**

### **Addysgu yn Gymraeg**

- 36 Mae bron pob athro yn darparu model iaith da i'r dysgwyr ac yn rhoi cyflwyniadau bywiog a diddorol. Mewn gwersi ymarferol, dangosant y technegau diweddaraf yn eu meysydd galwedigaethol yn effeithiol cyn gofyn i'r dysgwyr ymarfer ac efelychu'r technegau hyn. Mewn gwersi theori, mae athrawon yn defnyddio clipiau fideo yn llwyddiannus i ddangos technegau newydd ac i atgyfnerthu ac ymestyn dysgu'r dysgwyr.
- 37 At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog dysgwyr yn llwyddiannus i fod yn annibynnol. Yn aml, defnyddir hyn i ddatblygu medrau trawsieithu dysgwyr yn effeithiol drwy ofyn iddynt ymchwilio i destunau, yn Saesneg yn aml, ac yna paratoi cyflwyniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Addysgu dwyieithog**

- 38 Mae medrau Cymraeg cadarn gan bron pob athro, ac mae ganddynt eirfa gyfoethog yn y pwnc a addysgant. Maent i gyd yn fodolau iaith da i'r dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg yn ystod sesiynau dysgu dwyieithog. Drwy wneud hynny, maent yn sicrhau bod pawb yn y dosbarth yn deall beth sy'n cael ei ddweud. Mae pob tiwtor yn siarad Cymraeg un-i-un â dysgwyr sy'n siarad Cymraeg, ac yn eu hannog i ddefnyddio'r iaith mewn trafodaethau grŵp.
- 39 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn effeithiol o ran rhoi cyfleoedd i'r ddau grŵp iaith yn y dosbarth glywed a gweld digon o Gymraeg i fod yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith. Mae hyn yn sicrhau bod y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r iaith yn hyderus, a bod dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn deall beth sy'n digwydd ac yn chwarae rhan weithgar yn y wers. Mewn ychydig o wersi dwyieithog, fodd bynnag, mae athrawon yn ailadrodd popeth yn Gymraeg a Saesneg, ac o ganlyniad, mae rhediad y wers yn mynd yn ddiangen o araf, ac mae hyn yn rhwystro cynnydd dysgwyr. Yn aml, mae athrawon yn annog dysgwyr yn rheolaidd i ddefnyddio meddalwedd gwirio sillafu Cymraeg i wirio'u tasgau ysgrifenedig yn Gymraeg ac i wella eu medrau iaith. Ar y cyfan, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer defnydd dysgwyr o'r Gymraeg yn ystod sesiynau. Mewn ychydig iawn o sesiynau, fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio dysgwyr i ymestyn eu medrau cyfathrebu Cymraeg, ac maent yn rhy barod i dderbyn atebion yn Saesneg.

### **Addysgu unedau iaith Gymraeg**

- 40 Mewn unedau iaith galwedigaethol yn Gymraeg ar gyrsiau cyfrwng Saesneg, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn gwneud ymdrech dda i siarad Cymraeg gyda dysgwyr ail iaith yn rheolaidd trwy gydol y sesiwn. Maent yn meithrin iaith yn dda ac yn annog dysgwyr i ehangu'u medrau ieithyddol Cymraeg. Maent yn cywiro iaith y dysgwyr mewn modd sensitif, ac mae hyn yn cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol y sesiwn. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid iaith yn paratoi geirfaeod a rhestri ymadroddion Cymraeg o ansawdd da i sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio'r termau galwedigaethol cywir yn eu meysydd dysgu.

## Asesu

- 41 Mae bron pob athro yn canmol ymdrechion dysgwyr yn briodol. Yn y sesiynau gorau, mae athrawon yn rhoi sylw priodol i gynyddu hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg trwy gydol y sesiynau. Maent yn cywiro camgymeriadau iaith mewn modd sensitif ac yn darparu model iaith lafar o'r safon uchaf iddynt yn eu cyflwyniadau a'u trafodaethau.
- 42 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr sy'n dewis ysgrifennu yn Gymraeg yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Yn briodol, mae athrawon yn dewis y camgymeriadau y mae angen rhoi sylw penodol iddynt, er enghraifft geiriau allweddol ar gyfer y cwrs.
- 43 Mae'r mwyafrif o ddysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cwblhau'u haseiniadau a'u hasesiadau terfynol trwy gyfrwng y Saesneg. Fe allai'r diffyg arholiadau ac asesiadau terfynol trwy gyfrwng y Gymraeg gael effaith niweidiol ar statws y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Arweinyddiaeth

- 44 Mewn lleiafrif o golegau, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ynglŷn ag ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Maent wedi pennu nodau heriol ar gyfer ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu cynlluniau gweithredu. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau meintiol heriol, gyda rhaglen fanwl o gamau gweithredu penodol i ddatblygu'r ddarpariaeth a chyflawni'r nodau. Yn y colegau hyn, yr effaith yw cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 45 Fodd bynnag, nid yw arweinwyr mewn llawer o golegau ledled Cymru wedi datblygu'u cynlluniau darpariaeth Gymraeg i'r un graddau. Yn y colegau addysg bellach lle mae cyfrannau isel o ddysgwyr yn dilyn eu cyrsiau neu feysydd galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, nid yw arweinwyr bob amser yn ystyried bod cynyddu'r gyfran hon yn flaenoriaeth. Nid yw llawer o golegau lle nad yw dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn hyfyw wedi rhoi digon o sylw i gyflwyno cyrsiau'n ddwyieithog a darparu hyfforddiant i staff.
- 46 Dim ond lleiafrif o golegau sy'n gwneud defnydd da o ystod o ddata perfformiad sy'n darparu gwybodaeth drylwyr yn ôl cwrs neu faes galwedigaethol am gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Mae'r colegau hyn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i herio, ysgogi a gwneud newidiadau. Fodd bynnag, mae amrywio mawr yn y ffordd y mae colegau ledled Cymru yn defnyddio data'n effeithiol i gynyddu a mesur llwyddiant addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae llawer iawn o ddryswch o hyd ynglŷn â dulliau cofnodi a disgwyliadau, a chaiff hyn effaith niweidiol ar allu rhanddeiliaid i fesur llwyddiant a chynnydd trwy ddefnyddio data cymharol.
- 47 Yn ddiweddar, mae ychydig o golegau wedi datblygu protocol ar y cyd ag ysgolion uwchradd lleol, sy'n golygu y byddant o hyn ymlaen yn gallu nodi siaradwyr Cymraeg cyn iddynt gyrraedd y colegau. Mae hwn yn gyfraniad gwerthfawr at wella dilyniant

ieithyddol rhwng ysgolion a cholegau. Fodd bynnag, nid yw systemau pontio rhwng y rhan fwyaf o golegau addysg bellach ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ddigon effeithiol. Yn aml, ceir diffyg rhannu gwybodaeth gan ysgolion ynglŷn â medrau ieithyddol disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i golegau addysg bellach. Mae hyn yn rhwystro gallu'r colegau hynny i gynllunio i wella medrau ieithyddol dysgwyr ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog er mwyn sicrhau parhad a dilyniant.

- 48 Mae nifer gynyddol o golegau yn tynnu sylw darpar ddysgwyr at gyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, er bod enghreifftiau o fentrau defnyddiol yn ymwneud â marchnata manteision parhau i ddysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog yn y coleg, nid yw darparwyr wedi llwyddo i wneud digon i sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn dewis gwneud hynny.

### **Staffio a hyfforddiant**

- 49 Yn gyffredinol, mae'r prinder staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol mewn llawer o golegau. Mae hyn yn rhwystro gallu'r colegau hyn yn fawr i gynyddu cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Ychydig o golegau, yn enwedig lle mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig, sydd wedi cynnal arolygon o fedrau iaith eu staff fel man cychwyn ar gyfer nodi anghenion hyfforddi.
- 50 Mewn lleiafrif o achosion, mae cod ymarfer clir gan golegau ar gyfer recriwtio staff er mwyn cynnal neu gynyddu'r gyfran bresennol o siaradwyr Cymraeg ymhlith y staff addysgu. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn adolygu'n rheolaidd p'un a ddylai'r Gymraeg fod yn hanfodol neu'n ddymunol wrth benodi staff, yn unol ag amcanion a thargedau eu cynlluniau iaith Gymraeg. Mae hyn yn eu galluogi i sicrhau bod digon o staff cymwys ganddynt yn y meysydd galwedigaethol sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- 51 Mae ychydig o golegau addysg bellach yn cynnig hyfforddiant penodol i aelodau staff sy'n awyddus i wella eu medrau Cymraeg. Yn aml, mae'r colegau hyn yn manteisio ar raglenni hyfforddi o'r ganolfan ranbarthol Cymraeg i Oedolion neu ddarpariaeth fewnol yn y coleg.
- 52 Mae ychydig o golegau hefyd yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith er mwyn i staff ddeall hanfodion cynnwys eu cynlluniau iaith Gymraeg, adnoddau dysgu ac adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Maent hefyd yn trefnu cyrsiau arbennig i gynyddu ymwybyddiaeth aelodau newydd o staff er mwyn iddynt hwythau weithredu cynlluniau iaith Gymraeg y coleg. Hefyd, mae ychydig o golegau yn darparu cyrsiau gloymi iaith i'w staff.
- 53 Fodd bynnag, nid yw llawer o staff ar draws sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n cyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol yn rheolaidd ar fethodoleg addysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.



- 54 Mae llawer o golegau addysg bellach wedi manteisio ar y cynllun sabothol fel modd o wella medrau Cymraeg eu staff addysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o aelodau staff sydd wedi dilyn y cyrsiau hyn yn addysgu'u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Hefyd, mae Sgiliaith yn darparu hyfforddiant methodoleg er mwyn galluogi athrawon i addysgu'n ddwyieithog yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ganolfan hon wedi datblygu cwrs hefyd sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer rheolwyr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth ddysgu er mwyn rheoli a hyrwyddo materion dwyieithrwydd mewn adrannau colegau addysg bellach.
- 55 Nid yw mwyafrif y staff mewn colegau wedi derbyn digon o hyfforddiant ar sut i esbonio i ddarpar ddysgwyr o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg beth yw manteision dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

## Cymorth ac arweiniad

### Hyrwyddwyr dwyieithrwydd

- 56 Mae rôl hyrwyddwyr dwyieithrwydd wedi bod yn ganolog i ystod o weithgareddau ieithyddol ar lefel un i un gyda dysgwyr, ac i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd dysgu. Maent hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu partneriaethau cynhyrchiol rhwng colegau ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn llawer o ardaloedd ac at gynllunio dewisiadau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr 16-19 oed ar y cyd rhwng darparwyr fel rhan o'r Llwybrau Dysgu 14-19. Mae Llywodraeth Cymru (2015b) ac ymchwil a gynhaliwyd gan Arad (2014) yn nodi effaith hyrwyddwyr dwyieithrwydd hefyd a'r penderfyniad a wnaed gan golegau i barhau i ariannu'r rôl ar ôl i gyllid grant gan y llywodraeth ddod i ben.
- 57 Un o'r cryfderau amlwg yng ngwaith hyrwyddwyr dwyieithrwydd mewn colegau yw'r ffordd y maent yn llwyddo i ddatblygu ac ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Maent yn trefnu ystod o weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 58 Fodd bynnag, mae amrywio mawr rhwng colegau o ran ystod cyfrifoldebau'r hyrwyddwyr, ac mae hyrwyddwyr yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol ac ar lefelau gwahanol yn y colegau. Mae hyrwyddwyr dwyieithrwydd sy'n cyfrannu ar lefel strategol at lunio a goruchwylio cynlluniau iaith Gymraeg y colegau yn cael mwy o lwyddiant o ran pennu cyfeiriad strategol, ac o ran sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynyddu a bod mwy o ddysgwyr yn manteisio arni.

### Adnoddau a deunyddiau dysgu

- 59 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn creu ystod dda o gyflwyniadau lliwgar a deniadol i'w defnyddio yn eu dosbarthiadau. Mae safon y Gymraeg ar daflenni gwaith ac mewn adnoddau Cymraeg a dwyieithog ychwanegol yn gyson dda. Yn aml, mae athrawon yn manteisio'n helaeth ar adrannau cyfieithu'r colegau er mwyn sicrhau cysondeb o ran iaith pynciau arbenigol. Fodd bynnag, mae diffyg deunyddiau ac adnoddau amlgyfrwng cenedlaethol mewn meysydd galwedigaethol cyfrwng Cymraeg yn rhwystr sylweddol rhag cynyddu ystod y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

- 60 O ganlyniad, mae athrawon sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn treulio llawer iawn o amser ychwanegol yn paratoi adnoddau pwrpasol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Nid yw pob coleg yn sicrhau bod staff sy'n paratoi cyrsiau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn cael digon o amser i baratoi deunyddiau dysgu sydd gystal o ran fformat â deunyddiau cyfrwng Saesneg.
- 61 Yn gyffredinol, nid oes digon o ddeunyddiau cenedlaethol ar gael i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael ystod o adnoddau cyfrwng Cymraeg o ansawdd da yn eu meysydd galwedigaethol. Ychydig iawn o adnoddau Hwb<sup>4</sup> sy'n ddefnyddiol i ddysgwyr ac athrawon mewn colegau addysg bellach. O ganlyniad, mae llawer iawn o bwysau ar golegau unigol i greu eu deunyddiau cyfrwng Cymraeg eu hunain ar gyfer dysgwyr. Nid oes golygydd Cymraeg gan Hwb i ddatblygu adnoddau pwrpasol o ansawdd uchel ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16.
- 62 Mae prinder gwerslyfrau yn Gymraeg, ynghyd â threfniadau cyrff dyfarnu, yn parhau i gyfyngu ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn rhai achosion, nid yw dysgwyr yn gallu sefyll arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn lonawr oherwydd polisiâu'r byrddau arholi. Mae'r polisiâu hyn ond yn caniatáu i ddysgwyr sefyll eu harholiadau trwy gyfrwng y Saesneg bryd hynny. Yn ogystal, nid oes digon o wirwyr allanol mewn pynciau galwedigaethol sy'n gallu cyflawni'u dyletswyddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

---

<sup>4</sup> Menter gan Lywodraeth Cymru yw Hwb sy'n cynnig offer ac adnoddau dysgu digidol sy'n cael eu darparu'n genedlaethol ar gyfer dysgwyr 3-19 oed mewn ysgolion. Ar hyn o bryd, yn wahanol i ysgolion, nid oes cyfrifon Hwb gan golegau addysg bellach.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y dystiolaeth ganlynol:

### 1 Ymweliadau gan arolygwyr â phedwar coleg addysg bellach yn 2014 - 2015:

Coleg Caerdydd a'r Fro

- Campws Y Barri

Coleg Cambria

- Campws Llysfasi
- Campws Iâl
- Campws Glannau Dyfrdwy

Coleg Sir Gâr

- Campws y Graig
- Campws Gelli Aur

Grŵp Llandrillo Menai

- Coleg Llandrillo
- Coleg Menai
  - Campws Bangor
  - Campws Llangefni
- Coleg Meirion Dwyfor
  - Campws Dolgellau
  - Campws Pwllheli

Yn ystod yr ymweliadau, bu arolygwyr:

- yn arsylwi gwersi
- yn cyfweld â phenaethiaid, uwch swyddogion â chyfrifoldeb am addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithrwydd
- yn siarad ag athrawon a dysgwyr
- yn craffu ar waith dysgwyr

### 2 Tystiolaeth o arolygiadau o golegau addysg bellach rhwng 2010 a 2014

### 3 Dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur i golegau

### 4 Dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### 5 Dadansoddiadau o ddata ôl-16 Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru Llywodraeth Cymru

### 6 Cyfweiliadau ffôn â rheolwyr data colegau

## Atodiad 2: Tystiolaeth data

**Tabl 1: Targedau Cymru gyfan ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith**

Dangosyddion	Gwaelodlin 2007-2008 CC+D**	Targedau	
		2015 CC+D**	2020 CC+D **
Gweithgareddau dysgu dysgwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)*			
Ysgolion	14.9%	18%	20%
Sefydliadau addysg bellach	4.7%	7%	10%
Dysgu yn y gwaith	1.4%	2.5%	4%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015a)

\* Ac eithrio addysg Gymraeg

\*\* CC = Cyfrwng Cymraeg, D = Dwyieithog

**Tabl 2: Profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg (CC) a dwyieithog (B) ar gyfer dysgwyr 16-19 oed mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith**

Gweithgareddau dysgu myfyrwyr yn ôl cyfrwng addysgu (LA26)*	2009-2010** CC+D	2010-2011 CC+D	2011-2012 CC+D	2012/13 CC+D	2013-2014 CC+D	2014-2015*** CC+D
Ysgolion	17.1%	21.0%	17.4%	20.1%	20.5%	20.4%
Sefydliadau addysg bellach	6.2%	5.7%	6.7%	8.4%	8.5%	7.2%
Dysgu yn y gwaith	1.5%	3.0%	3.9%	3.6%	3.0%	6.7%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2016c)

\* Ac eithrio Dysgu yn y Gymraeg

\*\* Cyn 2010-2011, roedd data ar gyfer darpariaeth dysgu yn y gwaith yn cael ei chyflwyno gan sefydliadau addysg bellach wedi'i gategoreiddio o dan 'Sefydliadau addysg bellach'. O 2010-2011 ymlaen, mae'r data hwn wedi'i gategoreiddio o dan 'Dysgu yn y gwaith'.

\*\*\* Mae maes Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LA26) ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl-16 wedi'i ddiwygio a daeth yn weithredol yn 2014-2015. Erbyn hyn, mae'r dysgu'n cael ei gofnodi yn ôl cyfrwng y dysgu a'r iaith asesu unigolion, yn hytrach na'r iaith dysgu ac asesu ar gyfer carfan yr ystafell ddisbarth gyfan. O ganlyniad, bu gostyngiad o 8.5% yn 2013-2014 i 7.2% yn nata 2014-2015.

Mae'r tabl canlynol yn dangos canran y siaradwyr Cymraeg ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, ynghyd â chanran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf:

**Tabl 3: Dosbarthiad siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a disgyblion oedran ysgol statudol sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol**

Awdurdod lleol	Canran y boblogaeth (3+ oed) sy'n gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 2011	Canran y disgyblion oedran ysgol statudol yr addysgir Cymraeg iddynt fel iaith gyntaf, CYBLD 2016 (a)
Ynys Môn	57%	70%
Gwynedd	65%	92%
Conwy	27%	22%
Sir Ddinbych	25%	23%
Sir y Fflint	13%	6%
Wrecsam	13%	11%
Powys	19%	16%
Ceredigion	47%	71%
Sir Benfro	19%	18%
Sir Gaerfyrddin	44%	49%
Abertawe	11%	13%
Castell-nedd Port Talbot	15%	15%
Pen-y-bont ar Ogwr	10%	8%
Bro Morgannwg	11%	12%
Caerdydd	11%	14%
Rhondda Cynon Taf	12%	19%
Merthyr Tudful	9%	7%
Caerffili	11%	15%
Blaenau Gwent	8%	3%
Torfaen	10%	12%
Sir Fynwy	10%	3%
Casnewydd	9%	3%
<b>Cymru</b>	<b>19%</b>	<b>20%</b>

Ffynonellau: Cyfrifiad 2011, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru 2016a

(a) mae'n cynnwys disgyblion o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed a gynhelir.

Er nad yw dalgylch pob coleg yn cyfateb i ffiniau awdurdodau lleol, mae'r tabl yn ddefnyddiol o ran darparu meincnod bras. Mae'n fodd o fesur pa mor llwyddiannus y mae colegau'n sicrhau parhad a dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar sail y sefyllfa mewn ysgolion.

**Tabl 4: Gweithgareddau dysgu gan ddysgwyr 16-19 oed, yn ôl amryw ddangosyddion yn gysylltiedig â'r Gymraeg, 2014-2015**

	Cyfanswm nifer y gweithgareddau dysgu	Canran y gweithgareddau dysgu gan ddysgwyr sydd....		Canran yr holl weithgareddau dysgu gyda phob dull cyflwyno.. (a)				Cymraeg (C1)
		.. yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg (LP23)	.. â chymhwyster ar Level 1 neu'n uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf (LP67)	Dwyieithog				
				D3	D2	D1	Cyfanswm	
Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	10,935	8%	7%	3%	1%	4%	7%	0%
Hamdden, Teithio a Thwristiaeth	4,960	9%	8%	2%	0%	5%	7%	0%
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	4,305	7%	6%	3%	1%	1%	5%	0%
Lletygarwch ac Arlwyio	3,260	16%	12%	4%	1%	5%	10%	0%
Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid	485	14%	10%	0%	0%	3%	3%	0%
Gwyddoniaeth a Mathemateg	11,265	7%	6%	-	-	3%	4%	0%
Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	1,975	14%	13%	6%	3%	7%	15%	4%
Peirianeg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu	6,500	12%	10%	2%	-	9%	11%	-
Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	4,685	11%	7%	5%	-	6%	11%	0%
Trin Gwallt a Harddwch	2,650	8%	7%	1%	0%	2%	4%	0%
Y Celfyddydau Perfformio	2,540	8%	8%	1%	0%	7%	8%	0%
Celf a Dylunio	7,220	8%	6%	2%	1%	2%	5%	0%
Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	4,610	7%	6%	0%	0%	2%	2%	0%
Y Gwyddorau Cymdeithasol	2,770	7%	7%	0%	0%	3%	3%	0%
Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	8,675	8%	6%	4%	-	8%	12%	3%
Addysg a Hyfforddiant	410	6%	5%	0%	0%	2%	2%	0%
Medrau Byw'n Annibynnol	620	10%	2%	0%	0%	17%	17%	0%
Sylfaen i Waith	37,725	12%	9%	3%	1%	6%	10%	-
Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	6,510	10%	9%	-	1%	4%	6%	0%
<b>Cyfanswm gweithgareddau dysgu</b>	<b>122,100</b>	<b>10%</b>	<b>8%</b>	<b>2%</b>	<b>1%</b>	<b>5%</b>	<b>8%</b>	<b>-</b>

Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 2014-2015 – cronfa ddata ôl-16, Llywodraeth Cymru (2016b)

(a) I gael diffiniadau, gweler tudalen 6.

Mae '-' yn cyfeirio at dalgrynnu canran i sero ond nad yw'n sero mewn gwirionedd, lle mae'r rhifiadur yn seiliedig ar nifer o weithgareddau dysgu llai na 5 neu os yw cyfanswm nifer y gweithgareddau dysgu yn llai na 5.

## Cyfeiriadau

Arad (2014) *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach*. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140925-welsh-medium-education-strategy-bilingual-champions-cy.pdf> [Darllenwyd 2 Tachwedd 2016]

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011) *2011 Cyfrifiad: Siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl*. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/WelshSpeakers-by-LocalAuthority-Gender-DetailedAgeGroups-2011Census> [Darllenwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf> [Darllenwyd 1 Tachwedd 2016]

Llywodraeth Cymru (2014) *Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru 13-14*. Heb ei gyhoeddi. Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015a) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2014-15*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150715-welsh-medium-annual-report-cy.pdf> [Darllenwyd 4 Awst 2016].

Llywodraeth Cymru (2015b) *Canlyniadau arolwg Llais y Dysgwyr Ôl-16 Cymru, 2015*. SDR 58/2015. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/statistics/2015/150421-post-16-learner-voice-wales-survey-2015-en.pdf> [Darllenwyd 4 Awst 2016]. (Saesneg yn unig.)

Llywodraeth Cymru (2016a) *Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)*. Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2016b) *Lifelong Learning Wales Record user support manual for learning providers (XML) 2016/17*. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/datacollection/?skip=1&lang=cy> [Darllenwyd 28 Hydref 2016]

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2016c) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2015-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/topics/welshlanguage/publications/welsh-language-strategy-annual-report/?skip=1&lang=cy> [Darllenwyd 31 Hydref 2016]